**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
Cofnodion o gyfarfod hybrid o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ddydd Iau 9 Rhagfyr 2021 am 5.00 pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu oedd yn bresennol:**

Y Cynghorydd M. Adams (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd W. Lewis | Y Cynghorydd J. Bonetto |
| Y Cynghorydd J. Brencher | Y Cynghorydd G. Caple |
| Y Cynghorydd A. Cox | Y Cynghorydd G. Hughes |
| Y Cynghorydd P. Jarman | Y Cynghorydd D. Owen-Jones |
| Y Cynghorydd W. Jones | Y Cynghorydd S. Rees |

**Aelodau Cyfetholedig oedd yn bresennol:-**

Mr J Fish – Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr wedi'i ethol â'r hawl i bleidlais

**Swyddogion yn bresennol:-**

Mr C. Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr D. Powell, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor
Mr A. Roberts, Pennaeth Materion Ynni a Lleihau Carbon

**18 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod hybrid y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Roedd yr Aelodau canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G. Caple, G. Hughes a W. Lewis.

Cafodd ymddiheuriadau am absenoldeb eu derbyn oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. James AS, M. Griffiths ac E. Stephens.

**19 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**20 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 21 Medi, 2021, a chyfarfod arbennig y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2021, yn rhai cywir.

**Materion sy'n Codi:**

**21 Medi 2021** – Gofynnodd Aelod am gadarnhad bod yr Adroddiad Ymchwilio Adran 19 sydd wedi'i gyhoeddi ar gyfer ardal Treherbert wedi cael ei rannu â'r Aelodau lleol cyn iddo gael ei gyhoeddi a bod cyfle i'r Aelodau gwrdd â

Swyddogion wedi cael ei gynnig. (Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod y byddai modd iddo gadarnhau hyn maes o law).

**21 Dolenni Ymgynghori**

Aeth yr Aelodau ati i gydnabod yr wybodaeth oedd wedi'i darparu trwy'r dolenni ymgynghori mewn perthynas ag ymgynghoriadau agored, ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a'r materion hynny y mae'r awdurdod lleol yn cynnal ymgynghoriadau ynglŷn â nhw.

Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu atgoffa Aelodau bod modd iddyn nhw godi mater ar unrhyw adeg os ydyn nhw'n dymuno llunio ymateb fel pwyllgor craffu i unrhyw ymgynghoriad.

O ran ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, sef 'Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Urddas Mislif', sy'n dod i ben ar 12 Ionawr 2022, ac yng ngoleuni'r gwaith roedd y Gweithgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc wedi'i gynnal, gan arwain ar y pwnc yma; gofynnwyd cwestiwn o ran a fydd y Cyngor yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad a strategaeth, ac yn gwneud sylwadau, er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni disgwyliadau'r argymhellion a'r materion y mae'r gweithgor wedi tynnu sylw atyn nhw.

Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc yn ceisio cyfle i gynnwys a thrafod y mater yma yn rhan o'i flaenraglen waith a chadarnhaodd y byddai'r Gwasanaeth yn ymateb.

**22 Adroddiad Diweddaru - Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydanol, a'r Cynllun ar gyfer Rhoi Hynny ar Waith**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad a amlinellodd y cyfle i Aelodau drafod a herio'r amcanion sydd wedi'u nodi yn y Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan. Cafodd y Strategaeth ei chyflwyno, a'i mabwysiadu gan y Cabinet yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2021.

Cafodd Aelodau eu hatgoffa o waith y Gweithgor Trosolwg a Chraffu i drafod 'datblygu seilwaith i gefnogi perchnogaeth cerbydau carbon isel yn Rhondda Cynon Taf' a llunio naw argymhelliad. Nodwyd ei waith ymgysylltu diweddar o ran yr ymgynghoriad eang a gyfrannodd at Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd 2021-2025 drafft y Cyngor.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor fanylion am yr ymgynghoriad mewnol â rhanddeiliaid a dau ymgynghoriad cyhoeddus a gafodd eu cynnal trwy wefan ymgysylltu'r Cyngor, 'Dewch i Siarad RhCT', er mwyn bwrw ymlaen â'r Strategaeth a'i lywio. Mae'r strategaeth bellach wedi cael ei chymeradwyo gan y Cabinet.

Nododd y Cyfarwyddwr ddeg uchelgais y strategaeth a thynnodd sylw at y gydberthynas â'r deg argymhelliad a gafodd eu llunio gan y Gweithgor Craffu a'u cymeradwyo gan y Cabinet. Pwysleisiodd fod y gwaith craffu blaenorol wedi llywio'r strategaeth gyfredol a rhoddodd wybod am sut y byddai'r strategaeth yn helpu i nodi dull RhCT o ran hyrwyddo ac annog datblygiad rhwydwaith gwefru cerbydau trydan cadarn ac ymarferol yn y tymor byr, canolig a hir, a hynny wrth

ystyried y materion ehangach megis y pontio o gerbydau petrol a diesel i gerbydau trydan yn rhan o nodau trafnidiaeth gynaliadwy ehangach y Cyngor.

Yn dilyn cyflwyniad cynhwysfawr y Cyfarwyddwr o'r Strategaeth ar gyfer Gwefru Cerbydau Trydan yn RhCT, rhoddodd wybod am ganllawiau diweddar Llywodraeth Cymru a gafodd eu cyhoeddi heddiw yn gofyn am enghreifftiau o arfer da gan yr awdurdod lleol yma.

Esboniodd y Cyfarwyddwr fod pob cynllun sydd wrthi'n mynd rhagddo ledled yr Awdurdod Lleol hyd yn hyn wedi'i ariannu gan Fargen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd megis mannau gwefru ym meysydd parcio cyhoeddus. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd angen cyllid ychwanegol i gyflawni ffrydiau gwaith newydd yn y dyfodol.

Cafodd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gyfle i ofyn cwestiynau:

Gofynnodd Aelod am eglurhad o ran uchelgais rhif wyth. Yn ôl yr Aelod, dyma fyddai'r her fwyaf oherwydd y nifer uchel o dai teras ledled y Fwrdeistref Sirol. Hefyd, gofynnodd a yw'r cyllid gan Fargen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer tacsis neu'r cyhoedd ehangach?

Aeth y Cyfarwyddwr ati i gydnabod y problemau o ran yr uchelgais benodol ond tawelodd feddyliau Aelodau trwy nodi y bydd canllawiau a map ffordd ar gael i drigolion pan fydd cwestiynau am wefru'n agos i eiddo preswyl yn codi. Os na fydd digon o dacsis yn defnyddio'r seilwaith ac offer gwefru, byddan nhw ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio cyn belled â bod modd iddyn nhw dalu am y cyfleuster gwefru.

Awgrymodd Aelod arall i'r Cyngor ystyried ei fannau cyhoeddus lle y gallai cyfleusterau gwefru ar gyfer tai teras ddod yn anodd. Gofynnwyd cwestiwn o ran a fydd modd i drigolion a phartneriaid fanteisio ar gyfleusterau gwefru gweithleoedd y Cyngor ac yn achos adeiladau newydd ac adeiladau wedi'u hadnewyddu'n sylweddol yn darparu 10% o'r lleoedd parcio ar gyfer gwefru, beth mae'r Cyngor yn ei wneud i fanteisio i'r eithaf ar ei waith adnewyddu diweddar?

O ran ansawdd mynediad i gyfleusterau gwefru, awgrymwyd bod angen i'r strategaeth ystyried ffyrdd o gefnogi ardaloedd heb safleoedd i sicrhau bod y safleoedd hynny yn cael eu nodi a sicrhau nad ydyn ni'n caniatáu i ddarpariaeth rhannau uchaf y cwm fod yr olaf neu'r gwaethaf yn y Fwrdeistref Sirol.

Roedd Aelodau eraill o blaid gwefru yn y gweithle sydd, yn ardaloedd lle mae nifer uchel o dai teras, yn cynnig datrysiad i drigolion wefru eu cerbydau yn y gwaith a gyrru adref. A oes tystiolaeth i ddangos a yw'r symudiad at gerbydau trydan wedi cynyddu yn yr ardaloedd hynny lle mae seilwaith ar gael, gan y byddai hynny'n ffactor sy'n cyfrannu at ddylanwadu'r penderfyniad i brynu cerbyd trydan? Gofynnodd yr Aelod a yw pob opsiwn wedi cael ei ystyried megis cyllid grant i ddatblygu cefn gerddi tai teras trigolion er mwyn gosod seilwaith gwefru.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y cynhelir prawf ar gerbydau trydan y Cyngor yn rhan o gyfnod prawf i olrhain pellter y cerbyd yn ystod yr wythnos gwaith ar ôl ei wefru unwaith. Esboniodd y bydd ysgolion wedi'u hadeiladu'n ddiweddar gan y Cyngor a phob ysgol newydd yn darparu cyfleusterau gwefru cerbydau trydan yn rhan o ddull blaengar y Cyngor, yn ogystal ag ystyried safleoedd priodol eraill sy'n eiddo i'r Cyngor ac sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor.

Pwyntiau eraill a gafodd eu gwneud:

- A fydd ap fydd yn rhannu lleoliad y cyfleusterau gwefru lleol i helpu i gynllunio taith?
- Beth yw'r cydweithrediad â'r Bwrdd Iechyd?
- Sut bydd y pandemig yn effeithio ar wefru yn y gweithle gan fod cynifer o weithwyr yn gweithio gartref? Ydy'r strategaeth yn ystyried y symudiad o werthu injans diesel o 2030 gan wahardd cerbydau hybrid fel opsiwn arall, fydd y Cynllun Strategol yn ystyried y materion yma?

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor y berthynas waith agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Aeth ati i gydnabod y byddai'r Cynllun Gweithredu yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Craffu maes o law. Nododd y Cyfarwyddwr fod y ddau fater wedi cael eu hystyried wrth baratoi'r strategaeth a chynhaliwyd ymgynghoriad â thrigolion ar newid gofynion eu hanghenion teithio o ganlyniad i'r pandemig.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr i ymholiad o ran gwefru yn y gweithle gan nodi y bydd partneriaid yn cael cyfle i ddefnyddio cyfleusterau'r Cyngor pan fydd y seilwaith gwefru cyflym ar waith. Rhoddodd wybod y bydd y mapiau yn y strategaeth, sydd i'w gweld yn Atodiad 3, yn cael eu cyflawni yn 2021/22. Mae'r pinnau yn y mapiau'n cynrychioli'r ardaloedd hynny lle mae'r seilwaith wedi'i gyflwyno eleni. Serch hynny, nid dyma restr derfynol gan nad yw ychwanegiadau diweddar megis yr ysgol gynradd newydd yn Hirwaun, sydd â 2 gyfleuster gwefru newydd, ar y map. Ychwanegodd y bydd y gwaith yn mynd rhagddo gan ymgynghori â thrigolion a rhanddeiliaid.

I grynhoi, rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod bod ei garfan yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yr adran Cynllunio a chadarnhaodd fod canllawiau polisi cynllunio yn cael eu diweddaru. Eglurodd hefyd fod gwaith adnewyddu mewn canolfan hamdden leol eisoes yn cynnwys pibellau o dan y llawr yn y maes parcio er mwyn cynnwys seilwaith cyfleusterau gwefru yn y dyfodol.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Cydnabod yr adroddiad ac atodiadau (wedi'u hatodi) a mabwysiadu'r strategaeth a'i gyhoeddi'n ffurfiol ar wefan y Cyngor, yn dilyn trafod canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus; a

2. Bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cynnal gwaith cyn y cam craffu ar y cynllun gweithredu, fydd yn cynnig sut bydd seilwaith gwefru cerbydau trydan yn cael ei ddatblygu ledled y Fwrdeistref Sirol.

**23 Adolygiad o Raglen Waith Y Pwyllgor Trosolwg A Chraffu 2021-22**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad a roddodd gyfle i Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu adolygu a diweddaru, lle bo angen, ei flaen-raglen waith y cytunwyd arni ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021/22, ar ôl trafod blaengynllun drafft y Cabinet sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

ati i atgoffa Aelodau mai adroddiad terfynol y Cabinet a Phwyllgor Craffu yw rhaglen waith 2021/22, wedi'i datblygu ar gyfer y cyfnod hyd at yr Etholiadau Lleol ym mis Mai 2022. Rhoddwyd cyngor i Aelodau i drafod unrhyw bynciau o raglen waith 2021/22 sydd wedi'i hatodi er mwyn cynnal gwaith cyn y cam craffu i ystyried amcanion y Pwyllgor, yn ogystal ag ychwanegu gwerth at waith y Cyngor am weddill Blwyddyn y Cyngor.

Nododd Aelod bryder am '*Foderneiddio Gofal Preswyl a Gofal Oriau Dydd ar gyfer Pobl Hŷn'* fel sydd wedi'i nodi yn rhaglen waith craffu ddrafft Blwyddyn y Cyngor 2021/22 a phwysigrwydd derbyn diweddariadau pellach i sicrhau bod gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi'i roi ar waith mewn ffordd effeithlon ac effeithiol wrth ddelio â materion gofal cymdeithasol yn Rhondda Cynon Taf. Nodwyd nad oedd unrhyw sôn am ddiogelwch tomenni ym mlaen-raglen waith y Cabinet.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod y gallai'r Cyfarwyddwr priodol roi diweddariad i'r Pwyllgor mewn perthynas â sefyllfa bresennol y Cyngor ar adeg addas. Nododd y Cadeirydd y byddai modd mynd i'r afael â'r adroddiad diweddaru yn hwyrach yn y flwyddyn o ganlyniad i'r nifer o adroddiadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym mis Ionawr 2022.

Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu y bydd yr adroddiadau ymchwilio Adran 19 yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar ôl eu cyhoeddi.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn 2021-22 y Cyngor, ac i gael diweddariad pellach bob tri mis.

(**Nodwch**: Cafodd y cynnig a gollwyd i gyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu cyn diwedd Blwyddyn y Cyngor, mewn perthynas â *'Moderneiddio Gofal Preswyl a Gofal Oriau Dydd ar gyfer Pobl Hŷn'*, ei gynnig gan y Cynghorydd P Jarman a'i eilio gan y Cynghorydd D Owen-Jones. Roedd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P Jarman ac W Jones yn dymuno iddo gael ei gofnodi eu bod wedi pleidleisio o blaid y cynnig a gollwyd).

**24 Argymhellion y Gweithgor Craffu**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad, a roddodd yr argymhellion a chasgliadau y cytunwyd arnyn nhw gan y Gweithgor Craffu, i Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Cafodd y gweithgor craffu ei sefydlu i fwrw ymlaen â'r cynnig a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 18 Medi 2019 fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad.

Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ati i atgoffa Aelodau o'r cynnydd a gafodd ei wneud yn ystod misoedd olaf 2019 a misoedd cyntaf 2020, gyda'r galwad am dystiolaeth gan bartneriaid fel Trafnidiaeth Cymru i gefnogi proses ystyried Aelodau. Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod cynnydd wedi'i rhwystro o ganlyniad i'r pandemig, gan arwain at gyfarfod arall o'r Gweithgor yn gynnar yn 2021. Yn ystod y cyfnod yma, cafodd newidiadau sylweddol eu rhoi ar waith mewn perthynas â thirwedd trafnidiaeth, sef cynnydd Metro De Cymru.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod y byddai'r argymhellion sydd

wedi'u nodi ym mharagraff 6.1 o'r adroddiad, yn amodol ar drafodaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn yn y flwyddyn newydd.

Gofynnodd un Aelod am eglurhad o ran y ddau argymhelliad olaf, yn bennaf o ran delio â'r trefniadau moratoriwm wedi'u rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru. Gofynnwyd cwestiwn mewn perthynas â'r rheilffordd tuag at Lofa'r Tŵr i Zip World. Awgrymodd yr Aelod y dylai rheilffyrdd ar gyfer cymuned Hirwaun gael eu trafod ymhellach a'i obaith yw y bydden nhw'n rhan o'r penderfyniad terfynol o ran dewis lleoliad yr orsaf trwy broses ymgynghori. Nododd y Cadeirydd fod y mater yma i'w weld yn yr adroddiad ar dudalennau 149-151.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gymeradwyo casgliadau ac argymhellion y Gweithgor fel sydd wedi'u nodi ym mharagraff 6 o'r adroddiad (yn amodol ar ei ddiwygio i nodi bod y Cyng G Caple yn Aelod ward lleol ar gyfer Cymer nid Porth fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad).

Wedyn nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu fod modd iddo gadarnhau bod rhybudd ymlaen llaw wedi'i roi o ran yr adroddiad ymchwilio Adran 19 ar gyfer Treherbert i'r ddau Aelod lleol ar 16 Tachwedd 2021, cyn y dyddiad cyhoeddi.

**25 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r Aelodau am fod yn bresennol ac am gyfrannu at y cyfarfod. Rhoddodd grynodeb o'r pwyntiau allweddol yn y cyfarfod, gan nodi'n arbennig y Swyddogion hynny a oedd yn rhan o waith llunio'r adroddiad ar gyfer Gwefru Cerbydau Trydan a chroesawodd y cyfle i gynnal gwaith cyn y cam craffu ar y cynllun gweithredu a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu maes o law.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.25 pm**

**Y Cynghorydd M. Adams**
**Cadeirydd.**